**Dyddiad:** **10 Ionawr 2002,**
**Amser:** **2:00pm – 4:05pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **LLYTHYRAU CYLCH GWAITH DRAFFT 2002-03: AWDURDOD DATBLYGU CYMRU (WDA) & BWRDD CROESO CYMRU (WTB)**
(Papur gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd)

## Diben

1. Ceisio barn y Pwyllgor am y llythyrau cylch gwaith drafft i Awdurdod Datblygu Cymru (a amgaeir yn Atodiad A) a Bwrdd Croeso Cymru (yn Atodiad B).

## Gweithredu

2.Mae'r llythyrau drafft hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau strategol a gweithredol sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y ddau gorff am y flwyddyn ariannol i ddod.

**Byddai'r Gweinidog yn croesawu barn y Pwyllgor ynghylch a yw'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y llythyrau drafft yn briodol ac a oes blaenoriaethau eraill y byddai'n ddefnyddiol eu hychwanegu.**

## Cefndir

3. Diben llythyr Cylch Gwaith yw amlinellu'r gyllideb, y blaenoriaethau allweddol a'r targedau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i'r Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad eu dilyn yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod (2002-03). Adlewyrchir y blaenoriaethau sydd yn y llythyr cylch gwaith yng Nghynlluniau Busnes y WDA a'r WTB ar gyfer 2002-03.

### Awdurdod Datblygu Cymru

4. Dyma'r Lythyr Cylch Gwaith cyntaf ar gyfer y WDA. Mae'n adlewyrchu newid yng nghylch cynllunio'r WDA gan beri iddo gydymffurfio â chylchoedd cynllunio'r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad. Mae'r WDA wedi trafod y newidiadau ac wedi cynllunio arnynt. Amgaeir manylion llawn y cylch cynllunio newydd (Atodiad C).

### Bwrdd Croeso Cymru

5. Yn wahanol i'r WDA, mae'r Pwyllgor wedi gweld Llythyrau Cylch Gwaith ar gyfer y WTB mewn blynyddoedd blaenorol. Yn debyg i lythyr cylch gwaith y WDA mae llythyr y WTB yn amlinellu'r blaenoriaethau ar ei gyfer yn 2002-03.

**Cydymffurfiad**

6. Sefydlwyd Awdurdod Datblygu Cymru gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd) a Bwrdd Croeso Cymru gan Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969. Trosglwyddwyd pwerau o dan y ddwy Ddeddf i'r Cynulliad ac fe'u dirprwywyd i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff.

7. Nid oes darpariaeth statudol ar gyfer rhyddhau Llythyrau Cylch Gwaith i Awdurdod Datblygu Cymru neu Fwrdd Croeso Cymru. Serch hynny, credir mai arfer gorau yw gwneud hynny.

**Goblygiadau Ariannol**

8. Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i ryddhau'r llythyrau hyn. Mae'r ddarpariaeth gyllidol a gynhwysir yn y Llythyrau Cylch Gwaith drafft yn adlewyrchu Cyllideb y Cynulliad ei hun, fel y cytunwyd arni ar 22 Tachwedd 2001.

*Mae fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnwys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atoodiadau hyn ar gael yn Gymraeg.*